| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 19 Mawrth 2025 |
| **Aelod Arweiniol** | Alan James |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Emlyn Jones |
| **Awdur yr Adroddiad** | Jordan Collins, Swyddog Arweiniol Gwella Busnes |
| **Teitl** | Adroddiad Archwilio Cymru: 'Craciau yn y Sylfeini – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru' |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o Adroddiad Archwilio Cymru - 'Craciau yn y Sylfeini – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru' ac ymateb rheolwyr i argymhellion awdurdodau lleol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Darparu crynodeb o'r adolygiad a gwblhawyd gan Archwilio Cymru.

2.2. Nodi ymateb rheolwyr i argymhellion gan Archwilio Cymru a sut mae ein hadran Rheoli Adeiladau wedi ymateb i'r argymhellion hynny.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried y cynnwys a'r argymhellion yn adroddiad Archwilio Cymru (Atodiad 1).

3.2. Bod y Pwyllgor yn nodi'r camau a gytunwyd yn ymateb y rheolwyr (Atodiad 2).

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Yn dilyn y tân yn Nhŵr Grenfell yn 2017, cwblhawyd adolygiad annibynnol o Reoliadau Adeiladu a diogelwch tân a chyhoeddwyd y canfyddiadau yn 2018. Nodwyd pryderon difrifol yn yr adolygiad am drefniadau diogelwch adeiladau ac

felly argymhellwyd rhoi fframwaith newydd ar waith h.y. Deddf Diogelwch Adeiladau 2022.

4.2. Mae'r ddeddf hon yn cyflwyno'r newid mwyaf sylweddol i reoliadau diogelwch adeiladau ers 1984, gan roi cyfrifoldebau sylweddol ar Awdurdodau Lleol a swyddogion.

4.3. Mae Deddf Diogelwch Adeiladau newydd 2022 yn anelu at wella diogelwch adeiladau uchel ac ansafonol drwy sefydlu rheoliadau ychwanegol ar gyfer dylunio, adeiladu, cynnal a chadw a defnyddio adeiladau o'r fath.

4.4. Mae Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 hefyd wedi cyflwyno gofynion newydd i sicrhau fod Swyddogion Rheoli Adeiladau'n arddangos eu cymhwysedd mewn un o dair lefel (Domestig, Cyffredinol ac Arbenigol). Roedd y rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i bawb arddangos eu cymhwysedd a chofrestru â'r Rheoleiddiwr Diogelwch Adeiladau cyn 1 Hydref 2024.

4.5. Er mwyn deall sefyllfa bresennol Awdurdodau Lleol ac yn y bwriad o arddangos cydymffurfiaeth â'r ddeddf newydd, cyflwynodd Archwilio Cymru'r adroddiad 'Craciau yn y Sylfeini – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru' (Atodiad 1).

4.6. Mae adroddiad Archwilio Cymru a gyhoeddwyd ym mis Awst 2023 yn gwerthuso sut mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn gweithredu'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau.

4.7. Roedd yr adroddiad yn ystyried trefniadau Rheoli Adeiladau pob Awdurdod Lleol yng Nghymru, gan ystyried eu gallu i weithredu gofynion newydd Deddf Diogelwch Adeiladau 2022. Nodwyd pryderon yn yr adroddiad ynghylch gallu swyddogion ac amlygwyd prinder gweithwyr proffesiynol cymwys. Felly, mae'r adroddiad yn nodi efallai nad yw cyfrifoldebau a gofynion y ddeddf yn cael eu darparu fel y bwriadwyd.

4.8. Roedd yr adroddiad yn cynnwys wyth argymhelliad, pedwar i Lywodraeth Cymru a phedwar i Awdurdodau Lleol (Atodiad 2)

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Mae Rheoli Adeiladau a gwaith hysbysadwy'n cyfrannu at y themâu canlynol. Ceir eglurhad cryno o dan y themâu sydd fwyaf perthnasol i'r ddarpariaeth gwasanaeth.

- **Tai o ansawdd yn Sir Ddinbych sydd yn bodloni anghenion pobl**

  Mae asesiadau ac arolygiadau o waith yn sicrhau fod tai'n cael eu darparu i'r safon gywir yn barhaus. Bydd y rheoliadau a chamau gorfodi priodol yn sicrhau darpariaeth llety addas a diogel.

- **Sir Ddinbych ffyniannus**

  Mae sicrhau fod ceisiadau'n cael eu prosesu'n brydlon ac i'r safon gywir yn cyfrannu at yr economi leol.

- **Sir Ddinbych iachach, hapusach a gofalus**

Mae gorfodi neu arddangos cydymffurfiaeth â Rheoliadau Adeiladu'n sicrhau fod pob adeilad newydd yn cyfrannu at gydraddoldeb ac yn sicrhau fod safonau'n cael eu bodloni ar gyfer pobl ag anableddau a darparwyr gofal.

- **Sir Ddinbych wyrddach**
  Mae cydymffurfiaeth â Rhan P, solar a mentrau ynni eraill yn helpu i gyfrannu tuag at amgylchedd mwy gwyrdd sy'n llai dibynnol ar danwydd anghynaladwy a'r gwaith a gwblheir i helpu'r Cyngor i gyflawni statws di-garbon net ac ecolegol gadarnhaol erbyn 2030.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Er mwyn arddangos cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau newydd, roedd rhai costau ynghlwm â'r Fframwaith Cymhwysedd Diogelwch Adeiladau newydd, ond talwyd am y mwyafrif o'r costau hyn drwy gyllid grant i ddechrau.

6.2. Wrth symud ymlaen, bydd yr adain Rheoli Adeiladau'n talu unrhyw gostau sy'n gysylltiedig ag asesu cymhwysedd.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les a pha newidiadau sydd wedi, neu a fydd yn cael eu cyflwyno i'r prosiect neu'r ymagwedd o ganlyniad i'r asesiad?

7.1. Nid oes angen asesiad o'r effaith ar les gan nad yw'r adroddiad hwn angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Cynhaliwyd adolygiad Archwilio Cymru gyda swyddogion perthnasol ac aelodau arweiniol ar draws gwasanaethau'r Cyngor ac awdurdodau cyfagos. Yn yr un modd, mae'r adroddiad ac ymateb rheolwyr wedi'i gytuno arno gyda mewnbwn swyddogion allweddol.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

### Is-bennawd (dileer fel y bo’n briodol)

9.1. Nid oes angen datganiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risg arwyddocaol yn gysylltiedig â’r adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. Nid oes angen gwneud penderfyniad.